Ymddiriedolaeth Natur
Gogledd Cymru
North Wales
Wildlife Trust

# Pecyn Codi Arian Gwyllt

Syniadau ac awgrymiadau
**i'ch helpu chi i godi arian i Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru**



# Diolch

## am ddewis cefnogi gwaith Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru!

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn elusen leol, annibynnol sydd â gweledigaeth o fyd natur ffyniannus, gyda bywyd gwyllt a chynefinoedd naturiol yn chwarae rhan werthfawr wrth fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd ac ecolegol, a phobl yn cael eu hysbrydoli a'u grymuso i weithredu dros natur.

Mae gennym ni genhadaeth i ddod â bywyd gwyllt yn ôl, i rymuso pobl i weithredu dros natur, ac i greu cymdeithas lle mae natur o bwys - ac rydyn ni mor falch eich bod chi wedi penderfynu ein helpu ni i wireddu hynny. Mae'n uchelgais fawr, ond gyda phobl fel chi yn cefnogi, rydym yn gwybod y gallwn ei chyflawni!

Drwy godi arian ar gyfer Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, byddwch yn helpu i gefnogi bywyd gwyllt a llefydd gwyllt lle rydych chi'n byw neu sy'n bwysig i chi, gan ein rhoi ni ar y trywydd iawn i gyrraedd ein nod. 'Fydden ni ddim yn gallu cyflawni hyn hebddoch chi, felly ... beth am ddechrau codi arian!

## Sut gallai eich rhoddion helpu

Gallai **£10** brynu llif bwa i helpu ein gwirfoddolwyr gyda rheoli coetiroedd
Gallai **£50** brynu 50 o eginblanhigion i sefydlu dôl fechan yng nghanol cymuned
Gallai **£100** addysgu pobl ifanc am ein byd naturiol
Gallai **£500** ariannu arolwg rhywogaeth i sicrhau ei bod yn cael ei gwarchod

O sefydlu rhedeg noddedig i drefnu digwyddiad arbennig fel te parti prynhawn neu arwerthiant dewch a phrynu, gallwch chi helpu i godi arian mewn pob math o ffyrdd. Mae'r pecyn yma'n llawn awgrymiadau, cyngor a syniadau i'ch ysbrydoli chi, a pheidiwch ag anghofio mai dim ond codi'r ffôn sydd angen i chi os ydych chi eisiau mwy o arweiniad.




## Pob lwc a diolch!

# Canllaw cam wrth gam

**Gallai £35 brynu 10 o focsys lloches newydd i bathewod**

**Beth, pryd, ble, pwy a'r tywydd**

I roi cychwyn i'ch digwyddiad codi arian, bydd angen i chi feddwl am:

- **Pa** fath o weithgaredd neu ddigwyddiad yr hoffech ei wneud, edrychwch ar rai o'r syniadau codi arian yn y canllaw yma am ysbrydoliaeth
- **Pryd** rydych chi'n bwriadu ei wneud – a fydd yn digwydd ar un diwrnod neu dros wythnos gyfan? Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n dewis dyddiad ymhell ymlaen llaw fel eich bod yn gallu rhoi gwybod i bawb amdano!
- **Ble** fydd yn digwydd
- **Pwy** fyddwch chi'n eu gwahodd i wylio, i gymryd rhan, neu i'ch noddi
- Os yw eich gweithgaredd yn yr awyr agored, bydd angen i chi wirio'r **tywydd** a phenderfynu a fydd yn effeithio ar eich cynlluniau.

**Gosod nod**

Gosodwch nod i chi'ch hun o faint rydych chi'n gobeithio ei godi i Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Byddwch yn rhyfeddu at sut bydd hyn yn annog pobl i'ch cefnogi.

**Hyrwyddo**

Nawr mae'n amser tynnu sylw at eich cynlluniau!

- Gosodwch bosteri yn eich ardal leol, yn eich gweithle neu hyd yn oed o gwmpas eich cartref!
- Os yw'n ddigwyddiad y gall pobl eraill ei fynychu, anfonwch wahoddiadau gyda manylion pethau fel amser a lleoliad.
- Ewch ati i greu tudalen codi arian ar-lein y gallwch ei rhannu'n eang ar y cyfryngau cymdeithasol – bydd hyn yn galluogi i bobl eich noddi chi'n gyflym ac yn hawdd. Gallwch hyd yn oed ei rhoi ar ein gwefan ni!
- Dywedwch wrthym am eich cynlluniau – byddem wrth ein bodd yn cael gwybod!



# Mae codi arian yn hwyl

Dyma ddetholiad o syniadau ar gyfer digwyddiadau cymunedol a gweithgareddau noddedig i'ch rhoi chi ar ben ffordd – dewiswch chi!

- Arwerthiant cacennau
- Golchi ceir
- Her gwau
- Diwrnod gerddi agored
- Cwrs rhwystrau
- Nenblymio
- Rhedeg marathon
- Picnic Cymunedol
- Arwerthiant llyfrau
- Cerdded dros fywyd gwyllt
- Sioe dalent
- Twrnamaint gemau
- Parti gardd
- Helfa drysor
- Gemau Olympiaid Mini
- Eillio eich gwallt
- Noson cwis
- Raffl
- Taith gerdded yn y nos
- Abseilu
- Te a pharti cacennau
- Arwerthiant celf a chrefft
- Bingo
- Taflu welingtyns
- Diwrnod chwaraeon
- Gwisgoedd gwyllt
- Arwerthiant dewch a phrynu
- Tawelwch noddedig
- Ras hwyl
- Bore coffi
- Taith gerdded corws y wawr
- Cysgu yn y gwyllt
- Blasu gwin
- Rhoi'r gorau i rywbeth
- Noson ffilm
- Gêm bêl droed
- Ocsiwn
- Dawns ysgubor
- Noson casino
- Taith feicio









Bod yn gwyllt a mynd ati i godi arian!

# Codi arian ar-lein, cadw'n ddiogel a chadw'n gyfreithlon



**Codi arian ar-lein**
Fe allwn ni greu tudalen codi arian arbennig, wedi'i phersonoli, ar ein gwefan ni i'ch cefnogwyr ei defnyddio – yn syml, llenwch y ffurflen ar ein gwefan a byddwn mewn cysylltiad cyn gynted â phosibl. Mae platfformau codi arian eraill ar gael hefyd, fel JustGiving.



**Cadw'n ddiogel ac yn gyfreithlo**
Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau diogelwch pawb sy'n ymwneud â'ch digwyddiad. Rydym yn awgrymu cynnal asesiad risg ymlaen llaw yn lleoliad eich digwyddiad i wneud yn siŵr eich bod wedi ystyried unrhyw beryglon.

Nid oes angen trwydded ar y rhan fwyaf o ddigwyddiadau ar dir preifat fel ysgol neu weithle, dim ond caniatâd gan y perchennog tir. Bydd angen trwydded ar gyfer digwyddiadau ar dir cyhoeddus fel parc neu stryd fawr a gallwch ei chael trwy'r cyngor lleol.

# Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru

**Pam rydyn ni yma**
Mae pobl angen natur ac mae natur angen pobl. Fel pob un o'r 46 o Ymddiriedolaethau Natur yn y DU, rydyn ni yma i wneud y byd yn wylltach a gwneud byd natur yn rhan o fywyd, i bawb. Rydyn ni'n helpu i wneud bywyd yn well – i fywyd gwyllt, i bobl ac i genedlaethau'r dyfodol.

**Pwy ydyn ni**
Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn sefydliad ar lawr gwlad o bobl o ystod eang o gefndiroedd, sy'n credu bod arnom ni angen natur a bod natur ein hangen ni. Mae gennym ni fwy nag 8,000 o aelodau, 300 o wirfoddolwyr a 40 o staff!




**Beth rydyn ni'n ei wneud**
Ers dros hanner canrif rydyn ni wedi bod yn achub bywyd gwyllt a llefydd gwyllt, yn cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth pobl o fyd natur, ac yn dyfnhau perthynas pobl ag ef.

Rydyn ni'n gofalu am 35 o warchodfeydd natur, sy'n gorchuddio 790 o hectarau, ac yn cyfarfod â miloedd o bobl wyneb yn wyneb bob blwyddyn – mewn ysgolion, gweithleoedd a chymunedau lleol.

# Pob lwc

## a diolch i chi am eich cefnogaeth!

Gall pob ceiniog fyddwch chi'n ei chodi wneud byd o wahaniaeth i waith Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru i ddod â bywyd gwyllt yn ôl, i rymuso pobl i weithredu dros natur, ac i greu cymdeithas lle mae natur o bwys.

Cofiwch, dim ond codi'r ffôn neu anfon e-bost sydd angen i chi os ydych chi eisiau unrhyw help neu gyngor pellach.



Lluniau diolch i:
Tom Marshall, Jon Hawkins Surrey Hills Photography,
Andrea Piacquadio from Pexels, Andy Rouse/2020VISION,
David Tipling/2020VISION, Alexander Mustard/2020VISION,
Warwickshire Wildlife Trust, Cornwall Wildlife Trust

Ymddiriedolaeth Natur
**Gogledd Cymru**
**North Wales**
Wildlife Trust

**Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru**
Llys Garth,
Ffordd Garth, Bangor,
Gwynedd, LL57 2RT

01248 351 541
info@northwaleswildlifetrust.org.uk
**northwaleswildlifetrust.org.uk/fundraise-for-us**

Registered with/Cofrestrwyd gyda'r
FR FUNDRAISING REGULATOR
RHEOLEIDDIWR CODI ARIAN

Rhif Elusen 2230772
Rhif Cwmni 773995